

# CYDLYNYDD DIOGELU YDW I
## beth nesaf …?

Er bod diogelu yn **fater i bawb** ac mae'n wir fod cyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu i ddiogelu plant ac oedolion bregus, y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod yr eglwys yn cyflawni ei chyfrifoldebau diogelu ac yn dilyn y polisi diogelu yw i benodi **Cydlynydd Diogelu.**

Mae ein haddoldai yn agored i bawb a gall hyn arwain at oblygiadau diogelu ychwanegol. Felly mae'n bwysig ein bod yn cymryd pob mesur i ddiogelu pawb rydym yn gweithio gyda nhw, rhai sy'n mynychu ein man addoli yn ogystal â'n gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.

Fel y **cydlynydd diogelu**, mae eich rôl yn hanfodol i wneud eich eglwys yn lle mwy diogel i bawb. Gobeithio y bydd y daflen hon yn eich helpu i ddeall eich rôl a'r tasgau sydd o'ch blaen.

### NID YDYCH AR EICH PEN EICH HUN

Efallai y cewch eich galw'n gydlynydd /arweinydd / ymddiriedolwr neu swyddog diogelu ond pa bynnag deitl y mae eich eglwys yn ei ddefnyddio, cofiwch nad ydych ar eich pen eich hun. Mae'n hanfodol eich bod yn cael eich cefnogi yn eich rôl gan arweinwyr yr eglwys a'u bod yn dangos ymrwymiad glir i ddiogelu grwpiau bregus. Dylai tîm arweinyddiaeth yr eglwys ddeall y polisi diogelu, bod yn barod i'w ddilyn ac arwain trwy esiampl.

Ni ddylai eich rôl fod yn faich! Nid oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr mewn amddiffyn plant neu oedolion ac ni ddylid byth ddisgwyl i chi wneud penderfyniadau neu asesiadau diogelu mawr ar eich pen eich hun. Yn yr un modd, ni ddylai arweinwyr eglwysig geisio delio â materion diogelu yn annibynnol. Nid rôl yr eglwys na'r person diogelu lleol yw gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch digwyddiadau neu ddatgeliadau diogelu.

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn cefnogi Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru ar faterion diogelu gan gynnwys polisiau, achosion a phryderon a gwiriadau DBS. Swyddog Diogelu'r Panel yw'r swyddog diogelu arweiniol ar gyfer y tri enwad hyn.

Gan fod eich eglwys yn rhan o enwad sy'n ffurfio'r Panel Diogelu byddwch yn gweithio'n agos gyda swyddogion y Panel i'ch helpu i wneud eich eglwys yn lle mwy diogel i bawb. Am ragor o fanylion am y rôl darllenwch ymlaen. Mi all hyn amrywio o eglwys i eglwys, yn dibynnu ar eich gweithgareddau lleol ond mae'n debygol o gynnwys – i) codi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn lleol ii) sicrhau bod pawb sydd angen wedi gwneud gwiriad DBS ii) bod y pwynt cyswllt cyntaf os oes pryderon diogelu lleol. Mae swyddogion y panel, Sian a Julie, yma i'ch helpu a'ch cynghori a byddant yn eich cefnogi trwy unrhyw gamau diogelu y dylech eu cymryd.

### HYFFORDDIANT

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn darparu hyfforddiant diogelu i wirfoddolwyr (lefel 1) a gweinidogion a staff (lefel 2) yn ogystal â chwrs newydd i'ch helpu chi fel cydlynydd i ddeall eich cyfrifoldebau. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n gwirio ffurflenni DBS.
Fel cydlynydd, gallwch gael mynediad i unrhyw un o'r sesiynau hyfforddiant yma ac mae gwybodaeth am rhain ar wefan y Panel. Mae hefyd yn bwysig bod eich gwirfoddolwyr lleol yn mynychu'r hyfforddiant priodol bob pedair blynedd. Bydd pob lefel o hyfforddiant yn cynnwys yr elfennau canlynol ond bydd y pwyslais yn amrywio yn dibynnu ar y cwrs:

1. Eich polisi a'ch canllawiau diogelu.
2. Recriwtio mwy diogel ac arfer da.
3. Arwyddion a dangosyddion cam-drin ac esgeulustod a sut i ymateb i bryderon.
4. Lle i ddod o hyd i fwy o wybodaeth a chefnogaeth.

# BETH MAE'R RÔL YN EI GYNNWYS?

*Os oes gennych rolau diogelu ychwanegol yn eich eglwys megis ymddiriedolwr diogelu neu gydlynydd DBS, efallai bydd eraill yn gyfrifol am rai o'r elfennau hyn. Ceir crynodeb o'r rolau hyn yn nodiadau'r datganiad polisi diogelu* https://panel.cymru/cy/polisiau-a-gwybodaeth

## RHEOL AUR: PEIDIWCH BYTH Â BOD OFN GOFYN AM HELP NEU GYNGOR!

### POLISI:

1. Ymgyfarwyddo â'ch polisi a gweithdrefnau diogelu. Mae gwefan y panel yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gyflawni ein rôl. https://panel.cymru/cy/
2. Mae'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yn ffurfio'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu ar gyfer eglwysi o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae'n cynnwys canllawiau arfer da ynglŷn â gweithio gyda phlant ac oedolion bregus gan gynnwys recriwtio mwy diogel a DBS ac mae'n amlinellu beth i'w wneud os oes gennych bryder am unigolyn neu sefyllfa.
3. Cadw'r polisi diogelu yn gyfredol a sicrhau bod yr holl bobl berthnasol yn gwybod amdano ac yn cael mynediad ato.
4. Sicrhau bod y datganiad polisi yn cael ei arddangos a'i ddiweddaru gyda'r manylion cyswllt perthnasol.
5. Gwnewch yn siŵr bod diogelu ar yr agenda yng nghyfarfodydd yr eglwys ond dylech gael eich cefnogi yn eich rôl gan arweinwyr ac ymddiriedolwyr yr eglwys.

### RECRIWTIO MWY DIOGEL A GWIRIADAU DBS:

1. Hyrwyddo'r broses recriwtio fwy diogel. *Mae gwybodaeth am hyn yn Adran 2 y Llawlyfr neu ar-lein.* https://panel.cymru/cy/recriwtio-mwy-diogel
2. Gwnewch yn siŵr bod yr holl bobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac sy'n gymwys i wneud gwiriad DBS yn cael gwiriad cyfredol (pob 4 blynedd). *Gweler nodiadau diwedd[i], adran 2 o'r Llawlyfr neu ar-lein am fwy o fanylion.*
3. Efallai y gofynnir i chi weithredu fel y dilysydd hunaniaeth (ID) ar gyfer gwiriadau DBS.
4. Gwnewch yn siŵr bod gwirfoddolwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu. https://panel.cymru/cy/hyfforddiant
5. Gwnewch yn siŵr bod gwirfoddolwyr wedi darllen a deall y cod ymddygiad diogelu. *(Atodiad 2A yn y Llawlyfr)*
6. Ceisiwch gyngor pan fo angen a chysylltwch â swyddfa'r Panel ar faterion DBS.

### COFNODION:

1. Derbyn hysbysiadau gan y Panel bod gwiriadau DBS wedi'u cwblhau.
2. Cadw cofnod cyfrinachol o'r holl wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus gan nodi dyddiadau gwiriadau DBS a hyfforddiant a fynychwyd a sicrhau bod adnewyddiadau yn cael eu cwblhau.
3. Sicrhau bod unrhyw gytundebau diogelu yn cael eu cadw'n ddiogel a'u monitro'n briodol.

### PRYDERON A HONIADAU DIOGELU: Gweler ôl-nodiadau am fwy o fanylion[ii]

1. Derbyn ac ymateb i bryderon/ datgeliadau a honiadau sy'n cael eu rhannu gyda chi gan unigolyn sy'n dioddef cam-drin neu gan drydydd parti. Gwneud nodiadau gofalus o sgyrsiau a/neu bryderon.
2. Mewn argyfwng, os oes pryder am ddiogelwch plentyn neu oedolyn y tu allan i oriau cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu ar unwaith.
3. Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu y Panel cyn gynted â phosibl i gael cyngor a chefnogaeth.
4. Cydweithio â swyddog diogelu'r panel i wneud cyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol a chydweithredu â gwasanaethau statudol yn ôl yr angen.
5. Peidiwch ag ymchwilio i unrhyw honiadau neu bryderon. Gofynnwch am gyngor.

## NODIADAU

---

[i] **CYMHWYSEDD AR GYFER DBS.** Bydd y rhan fwyaf o rolau sy'n gweithio yn uniongyrchol gyda phlant yn gymwys i gael gwiriad DBS yn ogystal â rolau sy'n gweithio'n aml (h.y. wythnosol) gydag oedolion y byddai gwasanaeth statudol yn eu hystyried yn fregus neu agored i niwed. I'r rhai sy'n gymwys, dylid gwneud gwiriadau cyn dechrau gweithio gyda grwpiau bregus ac yna bob 4 blynedd.
Os nad oes unrhyw weithgareddau penodol gyda phlant neu oedolion agored i niwed mewn eglwys, nid oes hawl i wneud gwiriad DBS. Bydd y siartiau llif cymhwysedd yn eich cynorthwyo gyda hyn ac mae esboniadau hefyd yn y Llawlyfyr. Ni allwn wneud gwiriadau DBS 'rhag ofn' nac ar gyfer *pob* blaenor neu ddiacon oni bai bod eu gweithgareddau hwy neu weithgareddau'r eglwys yn bodloni meini prawf llym y DBS.
Mae croeso i chi gysylltu â Swyddfa'r Panel gydag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau a chofiwch adran 2 o'r Llawlyfr ac mae gan y wefan lawer mwy o wybodaeth.

[ii] . **YMATEB CYCHWYNNOL I BRYDER NEU HONIAD**
Os bydd pryder bod plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus wedi cael ei gam-drin, neu os gwneir honiad uniongyrchol o gam-drin, mae'n bwysig bod yr unigolyn sy'n derbyn yr wybodaeth hon yn dilyn y camau canlynol:
**1) Gwnewch nodiadau cyn gynted â phosibl:**
- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o'r union eiriau a ddywedwyd, pryd y dywedwyd, beth a ddywedwyd mewn ymateb, a disgrifiad o unrhyw weithgaredd. (Gallwch ddefnyddio Ffurflen Nodi Pryder- Ffurflen 11 yn adran 7 o'r Llawlyfr neu ar lein panel.cymru. )Cadwch unrhyw nodiadau mewn llawysgrifen hyd yn oed os byddant yn cael eu teipio'n ddiweddarach.
- Disgrifiwch unrhyw anaf, ei faint a darlun o'i leoliad a'i siâp. Gwnewch gofnod ysgrifenedig o ddyddiadau ac amseroedd y digwyddiadau hyn a phryd y gwnaed y cofnod.
- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o unrhyw gamau a gymerwyd.
- Os oes gan eich eglwys gydlynydd diogelu dylid rhoi'r nodiadau hyn iddynt i'w cynorthwyo petai angen cyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Fel arall gweler 2) isod neu ewch yn syth at wasanaethau cymdeithasol.

**2) Ceisiwch gyngor**: Os nad oes cydlynydd diogelu yn eich eglwys gysylltwch â swyddog diogelu y Panel Diogelu Cydenwadol (01745 817584/07957510346) neu ysgrifennydd cyffredinol eich enwad.
Gall thirtyone eight (0303 003 1111); NSPCC (0808 8005000) ac Hourglass—ar gyfer oedolion bregus (0808 808 8141) gynnig cyngor annibynnol ac mae ganddyn nhw wefannau a gwasanaeth linell gymorth gyfrinachol.
Pwyntiau cyswllt pellach ar wefan y panel https://panel.cymru/en/advice-and-support

**3) Mewn achosion brys:** Os bydd pryderon bod rhywun wedi'i anafu'n fwriadol neu mewn perygl o ddioddef 'niwed sylweddol' neu yn ofni dychwelyd adref, cysylltwch â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ar unwaith.
 Os oes angen gofal meddygol brys dylid ffonio am ambiwlans neu dylid eu cludo i'r ysbyty. Dylid hysbysu staff yr ysbyty am unrhyw bryderon ynghylch camdriniaeth.

**4) NI DDYLID** ymchwilio i unrhyw amgylchiadau, honiadau neu ddatgeliadau eich hun. Nid eich lle chi na'r eglwys yw penderfynu a ddigwyddodd yr achos o gam-drin ai peidio. Eich cyfrifoldeb yw adrodd am y mater i'r unigolyn priodol.

**5)** Pryderon ynghylch gofal gwael gan rieni neu esgeulustod (plant)
Os bydd y pryderon yn ymwneud â gofal gwael gan rieni, gall fod yn briodol i siarad â'r rhiant/gofalwr. Gallwch gynnig cymorth domestig ymarferol ac awgrymu, er enghraifft, y gallent cael sgwrs gyda'r ymwelydd iechyd, meddyg teulu neu adran plant y gwasanaethau cymdeithasol lleol.
Os bydd rhiant/gofalwr yn anfodlon neu'n ofni gofyn am gymorth, yna dylid cynnig mynd yn gwmni iddynt. Os nad ydynt yn cydnabod yr angen i weithredu, gellir trafod y sefyllfa yn anffurfiol â gwasanaethau cymdeithasol plant lleol heb ddatgelu manylion personol (megis enwau a chyfeiriadau) oni bai, wrth gwrs, y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi cyfarwyddid i chi wneud.

**GWNEWCH YN SIŴR BOD YR HOLL BRYDERON NEU DDIGWYDDIADAU DIOGELU YN CAEL EU HADRODD I SWYDDOG DIOGELU'R PANEL AR UNWAITH.**

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel